# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 25 Ebrill 2023 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Karen Edwards, Justine Evans, Hugh Irving, Huw Hilditch-Roberts, Brian Jones, Paul Keddie, Terry Mendies, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Peter Scott, Andrea Tomlin a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (SG) a Thai a Chymunedau (LG); Pennaeth ar y Cyd Dros Dro Gwasanaeth Cefnogi: Perfformiad, Digidol ac Asedau (NK); Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro: Adnoddau Dynol (LD); Rheolwr Cyllid Allanol (AS); Partner Busnes Caffael (RS); Partner Busnes Arweiniol Adnoddau Dynol (HE); Prif Gyfrifydd (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen, Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin -

Y Cynghorydd Emrys Wynne gan ei fod ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Cadwyn Clwyd
Y Cynghorydd Brian Jones gan ei fod ar y Bwrdd Prosiect ar gyfer un o'r ceisiadau.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023.

**Materion yn Codi** - Tudalen 9: Terfynu'r Contract am Brif Gontractwr ar gyfer Cam 2 y Depo Gwastraff - cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Scott at yr effaith ariannol ar y Cyngor a gofynnodd, os oedd y costau ychwanegol yn afresymol, a oedd Cynllun B? Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi fod swyddogion yn gweithio ar fanylion yr adroddiad oedd yn dod yn ôl gerbron y Cabinet ym mis Mai, oedd yn nodi'r dewisiadau oedd ar gael er mwyn gorffen darparu'r cynllun.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

**5 CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad ar y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i ariannu'r prosiectau a argymhellwyd gan y Grŵp Partneriaeth Craidd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys atodiadau cyfrinachol am y ceisiadau (oedd yn cynnwys materion ariannol a busnes) a'r canlyniadau a argymhellwyd, a chafodd y Cabinet eu cynghori gan y Swyddog Monitro i symud i sesiwn breifat i drafod yr elfennau hynny.

Roedd y Pennaeth Tai a Chymunedau, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro: Perfformiad, Digidol ac Asedau a'r Rheolwr Cyllid Allanol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Arweiniwyd y Cabinet yn fanwl drwy'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer. Cafwyd mwy o geisiadau ar gyfer y gronfa na'r adnoddau sydd ar gael sef 110 o geisiadau gyda chyfanswm o £88.7miliwn yn erbyn dyraniad o £25.6miliwn. Darparwyd trosolwg o'r arian a dderbyniwyd a phrosiectau a argymhellwyd i'w cymeradwyo, prosiectau na argymhellwyd i'w cymeradwyo a rhestr wrth gefn o brosiectau (Atodiad C yr adroddiad). Roedd adborth ar y rhestr hir o brosiectau gan y grŵp partneriaeth ehangach (Atodiad B yr adroddiad) wedi cael ei rannu â'r Grŵp Partneriaeth Craidd i lywio eu trafodaethau. Roedd ceisiadau nad oedd wedi pasio'r sgrinio cychwynnol hefyd wedi eu cynnwys yn ogystal â cheisiadau am arian a ddyrannwyd eisoes i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych neu Gadwyn Clwyd, fyddai'n cael eu cyfeirio at y sefydliadau hyn (Atodiad A yr adroddiad). Roedd gan bob prosiect ei rinweddau a byddai'r rhai na chymeradwywyd yn cael adborth positif a'u cyfeirio am gymorth pellach.

Amlygodd y Pennaeth Tai a Chymunedau y canlynol hefyd -

- wynebir heriau yn lleol a rhanbarthol oherwydd yr amodau a osodwyd i weinyddu'r rhaglen a'r dyraniad cyllid mewn amserlen dynn
- goblygiadau i brosiectau rhanbarthol oedd angen cymeradwyaeth ar draws gwahanol feysydd y cyngor, a defnyddio rhestr wrth gefn os bydd cyllid yn dod ar gael. Gofynnwyd i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod i'r Arweinydd i wneud hynny, mewn ymgynghoriad ag eraill

- y dull a ddefnyddiwyd gyda’r thema Pobl a Sgiliau i Sir Ddinbych yn Gweithio i gomisiynu gwasanaethau.

Trafododd y Cabinet y broses ymgeisio a llunio rhestr fer, a’r farn oedd ei bod yn gadarn a chynhwysol iawn ac yn heriol o ran gwneud penderfyniadau ar brosiectau. Roedd nifer y ceisiadau a gafwyd o’i gymharu â’r cyllid oedd ar gael yn golygu na ellid cymeradwyo llawer o’r ceisiadau’n anffodus. Roedd y Cabinet wedi cael sicrwydd y byddai’r Cyngor yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr aflwyddiannus i roi cymorth pellach a llwybrau posibl at ffrydiau cyllid eraill neu yn y dyfodol er mwyn datblygu’r prosiectau hynny drwy ffyrdd eraill pan fyddai’n bosibl. Amlygwyd y sefyllfa ar ôl Brexit hefyd a nodwyd bod nifer o’r dangosyddion wedi dynodi diffyg sylweddol yng nghynlluniau ariannu Llywodraeth y DU i ddisodli cyllid yr UE.

Roedd y Cabinet wedi bod yn falch o nodi cydbwysedd y cynrychiolwyr ar y grŵp partneriaeth ehangach hefyd, gyda mewnbwn eang ar draws sectorau gwahanol yn y broses honno. Amlygwyd hefyd bod Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chadwyn Clwyd wedi cael eu comisiynu i weinyddu grantiau lefel is i brosiectau a meithrin gallu yn y gymuned a diolchodd yr Arweinydd i’r sefydliadau hynny am eu mewnbwn. Cafodd dull comisiynu i Sir Ddinbych yn Gweithio ei groesawu hefyd, yn enwedig ar gyfer ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Nodwyd bod y prosesau penderfynu eraill ar draws y rhanbarth yn amrywio, a bod dull Sir Ddinbych drwy’r Cabinet yn cynnig proses agored a thryloyw. Ystyriodd y Cabinet fod preswylwyr a chymunedau wedi bod ar flaen y broses gwneud penderfyniadau er mwyn targedu’r rhai â’r angen mwyaf, rhai diamddiffyn ac anodd eu cyrraedd, a diolchwyd i bawb oedd yn rhan o’r broses am eu mewnbwn.

Ar y pwynt hwn, agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent yn aelodau o’r Cabinet.

Codwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd yr Arweinydd a swyddogion iddynt -

- roedd y meini prawf ar gyfer Cam 1 wedi bod yn glir ac nid oedd cyswllt uniongyrchol wedi’i wneud ag ymgeiswyr gan fod digon o wybodaeth wedi’i ddarparu i wneud argymhellion; roedd Cam 2 yn cynnwys cael mwy o fanylion am ddulliau darparu, canlyniadau ac allbynnau
- nid oedd yr amserlenni’n caniatáu amser i geisiadau unigol aflwyddiannus gael hawl i apelio; roedd y mecanwaith galw i mewn ar gyfer craffu ar gael
- anghytuno y dylai'r broses fod wedi cynnwys darparu mwy o fanylion ar y dechrau, roedd digon o wybodaeth wedi’i darparu i wneud argymhelliad a darparwyd mwy o wybodaeth a diwydrwydd dyladwy yn ail gam y broses
- derbyniwyd y byddai ymgeiswyr aflwyddiannus yn siomedig ond dim ond hyn a hyn o arian oedd ar gael i’w ddyrannu a byddai’r sgwrs yn parhau gyda’r ymgeiswyr aflwyddiannus a byddai adborth positif yn cael ei roi, ynghyd â’u cyfeirio at gymorth pellach a ffynonellau ariannu posibl eraill fel bo’n briodol
- roedd Llywodraeth y DU wedi gosod rhannau helaeth o’r dull o gynnal y broses o ran yr amodau ariannu a chynnwys y Grŵp Partneriaeth Craidd, oedd wedi cael ei ymestyn i gynnwys ymgynghoriad ehangach
- nid oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw brosiectau oedd wedi cael eu hisraddio oherwydd diffyg eglurder am amserlenni darparu

- fel oedd yn orfodol, roedd cyllid wedi'i ddyrannu ar draws themâu yn hytrach na dosbarthiad daearyddol ar draws y sir. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y prosiectau a argymhellwyd i'w cymeradwyo yn rhai i'r sir gyfan
- o ran cyllid i'r dyfodol, roedd yn debygol y byddai Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cyllid pellach ar ddiwedd y rhaglenni Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin presennol.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigiodd y Cabinet y dylid trafod yr atodiadau cyfrinachol yn yr adroddiad a -

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

Crynhodd y Pennaeth Tai a Chymunedau yr argymhellion ar gyfer y prosiectau ar y rhestr fer fesul thema, oedd wedi eu rhannu eto i gyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol, ac roedd y prosiectau wedi eu blaenoriaethu yn erbyn y cyllid a ddarparwyd.

Nododd y Cabinet bod fframwaith y rhaglen a'r amodau ariannu wedi cael eu gosod gan Lywodraeth y DU ac roedd y sefyllfa'n parhau'n hyblyg. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y DU, cadarnhawyd y gellir ailddyrannu'r tanwariant lluosog ym Mlwyddyn 1 i Flwyddyn 2 ac roedd trafodaethau pellach ar y gweill o ran y posibilrwydd o ailddyrannu tanwariant o Flynyddoedd 2 a 3 i themâu eraill wrth symud ymlaen, fyddai o fudd i brosiectau ar y rhestr wrth gefn. Oherwydd y cyllid cyfyngedig oedd ar gael, roedd yn anorfod y byddai ymgeiswyr aflwyddiannus yn siomedig, ond dywedwyd eto y byddai'r ymgeiswyr hynny yn cael adborth positif ac yn cael eu cyfeirio at gymorth pellach a ffrydiau ariannu pellach pan fo'n bosibl.

Yn ystod y drafodaeth ehangach, tynnodd rai cynghorwyr sylw at rinweddau prosiectau penodol yn eu wardiau nad oedd wedi cael eu hargymell i'w cymeradwyo, i'r Cabinet eu hadolygu a sicrhau y byddai ymdrech fawr yn cael ei gwneud o leiaf i gefnogi'r prosiectau hynny i ddatblygu yn y dyfodol. Soniodd yr Arweinydd eto am yr addewid i weithio gydag ymgeiswyr aflwyddiannus i ddatblygu prosiectau fel bo'n briodol ac ymhelaethodd y swyddogion am y rhesymau pan nad oedd y prosiectau penodol hynny wedi cael eu hargymell i'w cymeradwyo. Tynnwyd sylw at effaith cais aflwyddiannus Dyffryn Clwyd am gyllid Ffyniant Bro ar rai o'r prosiectau hyn hefyd.

Trafododd aelodau bwysigrwydd ymdrin â thlodi ac amddifadedd drwy brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nodwyd bod y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Corfforaethol a'i fod yn targedu gwella lles ac ymdrin ag amddifadedd ar draws y sir; gellid mesur effaith y prosiectau hynny dros dymor y cyngor. Wrth ymateb i gwestiynau, dywedodd y swyddogion bod trosolwg o'r prosiectau wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad a'i fod yn ehangu ar y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion yn seiliedig ar gyfres o brosiectau i gyflawni allbynnau a chanlyniadau pob thema o fewn y cyllid cyfyngedig sydd ar gael. Roedd y

Cynghorydd Peter Scott yn falch o nodi'r prosiectau a argymhellwyd yn Ardal Aelod Elwy.

Wrth gloi'r drafodaeth, soniodd yr Arweinydd eto am y penderfyniadau anodd oedd angen eu gwneud a diolchodd i'r aelodau am graffu a herio hynny. Cytunodd y Cabinet ar ddiwygiad i gynnwys paragraff 4.10 yn argymhelliad 3.3.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

(a) *cadarnhau eu bod wedi deall y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ac yn cymeradwyo bod y gweithdrefnau hynny'n deg ac agored.*

(b) *cytuno i ariannu'r prosiectau a roddwyd ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaeth Craidd (Atodiad C yr adroddiad) a*

(c) *rhoi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi. Efallai y bydd angen y penderfyniadau hynny pe bai'r amgylchiadau a nodwyd ym mharagraffau 4.9, 4.10 a 4.11 yr adroddiad yn digwydd.*

Ar y pwynt hwn (11.35 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

## 6 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau proses dendro, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, i ddarparu staff asiantaeth allanol drwy wasanaeth a reolir, a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu contract newydd yn dilyn yr ymarfer caffael.

Tynnwyd sylw'r Cabinet hefyd at yr Asesiad o'r Effaith ar Les a'r effaith bositif ar gyflogaeth yn lleol, tâl teg a thelerau ac amodau da.

Crynhodd y Pennaeth AD yr adroddiad, gan ddweud bod y contract presennol yn dod i ben ym mis Awst 2023, rhoddodd fanylion y broses gaffael a'r gwariant a ragwelir ar y contract a dadansoddiad o wariant fesul gwasanaeth. Byddai'r contract yn cynnwys absenoldebau heb eu cynllunio a staff arbenigol tymor byr yn bennaf. Oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer dyfarnu'r contract a'r angen i reoli'r trawsnewid i ddarparwr newydd o bosibl, gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo'r penderfyniad ar ddyfarnu'r contract.

Ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau fel a ganlyn -

- nid oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi swyddi parhaol
- roedd costau cyflogi staff asiantaeth yn debyg i gyflogi'n uniongyrchol gan fod y costau cyflogau yr un fath, yn dechrau ar waelod y raddfa berthnasol

- dan y contract presennol, roedd ffi o 9 ceiniog yr awr yn daladwy i Matrix
- roedd adrannau'n craffu ar y defnydd o staff asiantaeth a chostau a byddai AD yn gwneud mwy o waith yn y dyfodol gyda'r bwriad o leihau costau
- nid oedd y contract asiantaeth yn cynnwys athrawon llanw na gweithwyr asiantaeth gofal cartref y gwasanaethau cymdeithasol
- roedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n bennaf i lenwi swyddi gweigion tymor byr, megis absenoldeb salwch ac roedd mwyafrif y gwariant mewn Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol yn cyflenwi gwasanaethau rheng flaen
- weithiau, roedd yn anodd recriwtio i swyddi arbenigol neu dechnegol a byddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio am gyfnod byr
- nid oedd costau cludiant a/neu lety yn daladwy fel rhan o'r contract ac roedd llawer o asiantaethau lleol yn cael eu defnyddio, gyda staff asiantaeth oedd yn byw yn lleol.

Cytunodd y Cabinet i ddiwygiad yn cynnwys ymgynghori â'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol o ran argymhelliad 3.2.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo dechrau'r broses dendro i ddarparu staff asiantaeth drwy wasanaeth a reolir yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau y Cyngor (5.5.4(iii)), a*

*(b) dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth AD i ddyfarnu'r contract i'r darparwr llwyddiannus mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol.*

## 7 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU - DATGAN DIDDORDEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatgan diddordeb ar ran y Cyngor i gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Oherwydd bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn symud rhwng y Gogledd a'r De bob blwyddyn, byddai yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru yn 2027, 2029 a 2031. Tynnwyd sylw at werth cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn lleol, o ran ymwelwyr a budd economaidd, yr effaith bositif ar y Gymraeg a'r diddordeb mewn diwylliant a threftadaeth Cymru. O ran lleoliad, roedd Cyngor Tref Rhuddlan wedi cynnig safle, ac roedd y Cynghorydd Wynne o blaid cynnig y safle yn Rhuddlan i Bwyllgor yr Eisteddfod fel y safle a ffefrir yn Sir Ddinbych.

Yn ystod trafodaeth, roedd cefnogaeth aruthrol i'r Cyngor gynnig cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol, ac roedd yr aelodau'n cydnabod y manteision economaidd a diwylliannol a'r effaith bositif ar y Gymraeg. O ran lleoliad, mynegodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y byddai'n well ganddi safle yn ne'r sir, megis Corwen. Mynegodd aelodau eraill y byddai'n well ganddynt safleoedd yng ngogledd neu dde'r sir hefyd ond roeddent i gyd yn cytuno y byddai croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol ble bynnag y byddai'n cael ei chynnal yn y sir. Dywedodd yr Arweinydd fod argymhelliad yr adroddiad yn ymwneud â datgan diddordeb yn unig

ar hyn o bryd. Byddai trafodaethau manwl yn cael eu cynnal yn nes ymlaen am safle posibl. Eglurwyd mai mater i Bwyllgor yr Eisteddfod oedd lleoliad y safle, ond gofynnir i awdurdodau lleol helpu i ddynodi safleoedd posibl i'w hystyried ynghyd â budd-ddeiliaid eraill megis yr Heddlu a Chyfoeth Naturiol Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cais ar ran y Cyngor i ddatgan diddordeb mewn cynnig llety i Eisteddfod Genedlaethol Cymru.*

## 8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2026/27

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn nodi'r rhagamcanion ariannol diwygiedig am y cyfnod o 3 blynedd 2024/25 i 2026/27 ynghyd â'r strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25.

Rhoddwyd ychydig o gefndir yn cynnwys crynodeb o sefyllfa gosod cyllideb 2023/24 ynghyd â'r risgiau am gostau ynni, cynnydd mewn cyflogau a phwysau ar gyllidebau gwasanaethau penodol. Roedd y cynnydd yn y setliad cyfartalog dangosol o 3% yn 2024/25 wedi arwain at sefyllfa ariannol anodd iawn gyda chwyddiant uchel a dychwelyd at setliad sy'n llawer is na chwyddiant. Roedd y rhagamcanion cyllideb diwygiedig ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1 yr adroddiad) yn dangos amcangyfrif o bwysau ac effaith bosibl cynnydd yn Nhreth y Cyngor a'r Grant Cynnal Refeniw, ar roedd yn enghraifft o ansicrwydd y ffigurau a'r gwaith sydd angen ei wneud o hyd.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio ei grynodeb o'r adroddiad.

Nododd y Cabinet y pwysau ariannol digynsail ar y Cyngor wrth symud ymlaen a'r penderfyniadau anodd fydd yn gorfod cael eu gwneud yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn mantoli'r gyllideb ac yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion preswylwyr orau. Rhoddwyd teyrnged i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio a'i dîm ynghyd â'r Aelod Arweiniol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled i lunio strategaeth gyllideb tryloyw a chynhwysol ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â'r holl fudd-ddeiliaid a bod gan staff, aelodau a phreswylwyr i gyd ran i'w chwarae mewn cynllunio ariannol i'r dyfodol. Croeswyd y ffaith y bydd Cynllun Cyfathrebu yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl, o ran egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau anodd fydd yn gorfod cael eu gwneud a rhoi cyfle i bawb gyfrannu at y broses gosod cyllideb. Trafodwyd yr hinsawdd ariannol heriol a'r pwynt gwleidyddol a wnaed bod yr anawsterau presennol yn ganlyniad uniongyrchol y penderfyniadau gwleidyddol a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Dywedodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis ei bod yn galonogol clywed ymateb unedig y Cyngor a phwysleisiodd mor bwysig oedd bod aelodaeth ehangach y cyngor i gyd yn cydweithio er lles preswylwyr a chyflawni canlyniad gyda'r effaith lleiaf bosibl. Ailadroddodd yr Arweinydd bwysigrwydd bod yn agored a gonest am y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r awdurdod ac ymgysylltu â staff, aelodau a'r cyhoedd wrth greu cynlluniau ariannol yn y dyfodol. Byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru ar sefyllfa ariannol awdurdodau lleol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r rhagamcanion ariannol diwygiedig am y cyfnod o 3 blynedd 2024/25 i 2026/27 ynghyd â'r strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2024/25.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet i'w hystyried, a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol –

- Cynigion Buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – tynnwyd o fis Mai/Mehefin
- Pleidlais Ardal Gwella Busnes y Rhyl – efallai y bydd yn llithro o fis Mehefin i fis Gorffennaf

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm.